| | |
|---|---|
| **Date/Dyddiad** | 22 Medi 2023 |
| **Ask for/Gofynnwch am** | Mynediad a Threfniadaeth Ysgol |
| **Rhif ffôn**/Telephone | 01446 700111 |
| **Ffacs**/Fax | |
| **e-mail/e-bost** | admissions@valeofglamorgan.gov.uk |
| **Your Ref/Eich Cyf** | |
| **My Ref/Fy Nghyf** | |

**Cyngor Bro Morgannwg**
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri CF63 4RU
Ffôn: (01446) 700111 www.bromorgannwg.gov.uk

**The Vale of Glamorgan Council**
Learning and Skills
Civic Offices, Holton Road, Barry, CF63 4RU
Telephone: (01446) 700111
www.bromorgannwg.gov.uk

Annwyl Riant/Gwarcheidwad

## ADDYSG UWCHRADD: DERBYN YM MIS MEDI 2024

Gan y bydd eich plentyn yn dechrau addysg uwchradd ym mis Medi 2024, mae'n bryd i chi wneud cais am le yn eich dewis ysgol. Gallwch weld trefniadau'r Awdurdod ar gyfer cynnig lleoedd mewn dosbarthiadau Blwyddyn 7 yn yr adran derbyn i ysgolion, derbyn i ysgolion uwchradd, ar ein gwefan yn y ddolen ganlynol https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/admissions/School-Admissions.aspx a thrwy ddarllen y Canllaw Rhieni i Dderbyn i Ysgolion. Darllenwch y canllaw cyn gwneud cais, gan ei fod yn rhoi'r holl wybodaeth berthnasol am y broses dderbyn i ysgolion, gan gynnwys y meini prawf gordanysgrifio a ddefnyddir i gynnig lleoedd pan fo mwy o geisiadau na lleoedd mewn ysgol. Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, gallwch ofyn am gopi caled o'r canllaw gan y cyngor neu gan ysgol eich plentyn. Rhaid i'ch cais gael ei wneud erbyn y dyddiad cau sef **24 Tachwedd 2023**. Yna cewch wybod am y canlyniad drwy lythyr a anfonir ar **1 Mawrth 2024**. Os na wnewch gais am le yn un o ysgolion cymunedol y Cyngor erbyn y dyddiad cau, a bod mwy o geisiadau na lleoedd i'r ysgol honno, mae posibilrwydd na fydd eich plentyn yn cael lle yn eich ysgol leol.

**Ar y ffurflen gais, bydd angen i rieni gyflwyno tri dewis ar gyfer ysgolion uwchradd yn nhrefn blaenoriaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion gallwn gynnig eich dewis cyntaf i chi, ond nid yw hyn bob amser yn bosibl. Trwy roi tri dewis ar eich cais rydych yn fwy tebygol o gael lle mewn ysgol yr ydych am ei gael yn hytrach na derbyn cynnig i ysgol a all fod gryn bellter i ffwrdd neu nad yw'n un o'ch dewisiadau. Mae angen i chi ddefnyddio'r holl ddewisiadau sydd ar gael i chi er mwyn sicrhau lle mewn ysgol uwchradd i'ch plentyn ar gyfer mis Medi 2024 gan roedd lleoedd yn gyfyngedig iawn y llynedd.**

### St Richard Gwyn i gymryd rhan mewn cynllun i dreialu trefniadau derbyn cydgysylltiedig

Yn dilyn cyflwyno cynllun peilot ar gyfer trefniadau derbyn cydgysylltiedig ar gyfer trosglwyddo o addysg gynradd i addysg uwchradd Medi 2021, mae corff llywodraethu Ysgol Uwchradd St Richard Gwyn R.C wedi cytuno i gymryd rhan yn y cynllun am ail flwyddyn ar gyfer proses ymgeisio 2024.

Yn ogystal ag Ysgolion Cymunedol Bro Morgannwg, gallwch nawr hefyd wneud cais am le yn Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn drwy ddefnyddio'r gwasanaeth gwneud cais ar-lein. Sicrhewch eich bod wedi darllen a deall y meini prawf derbyn ar gyfer St Richard Gwyn. Anogir trigolion y Barri neu'r disgyblion hynny sy'n mynychu ysgol gynradd ffydd i sicrhau bod St Richard Gwyn yn un o'r dewisiadau a restrir ar eu cais.

### PROSES DERBYNIADAU AR-LEIN

Gallwch wneud cais drwy ein proses derbyniadau ar-lein. Mae'n syml ac yn gyflym, ac yn ffordd haws i rieni wneud cais. Cyn cofrestru a gwneud cais ar-lein, rhaid i chi gofrestru gyda chyfeiriad e-bost dilys. Mae Porthol Addysg Ar-lein y Cyngor ar ein gwefan yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i wneud hyn, dilynwch y ddolen 'Gwneud Cais Nawr' ar y dudalen Derbyniadau i Addysg Uwchradd.

Er ei bod yn fwy diogel gwneud cais ar-lein ac y byddwch yn cael neges electronig yn cadarnhau i'ch cais ddod i law, mae ffurflenni cais papur ar gael i'r sawl heb fynediad i'r rhyngrwyd. Os hoffech ffurflen gais

ar bapur, cysylltwch â ni drwy e-bost neu dros y ffôn fel y gallwn anfon un atoch.  Cofiwch fod y dyddiad cau'r un fath, waeth pa fath o gais a wnewch.

**Gwneud cais am le mewn Ysgolion Sefydledig**

Rhaid gwneud cais am le yn ein hysgol Sefydledig (Stanwell) drwy'r ysgol dan sylw gan taw'r Corff Llywodraethu yw'r Awdurdod Derbyn. Dyma’r achos hefyd os ydych am wneud cais i Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf. Cysylltwch â’r ysgolion perthnasol cyn gynted â phosibl i drefnu hyn gan y gallai eu dyddiadau cau fod yn wahanol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â’r Tîm Mynediad Ysgolion gan ddefnyddio’r manylion cyswllt uchod.

Yn gywir

**Tîm Mynediad a Threfniadaeth Ysgolion**
**Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau**